Datganiad am Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

Cyflwyniad

Gwneir y datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n cynnwys ein datganiad ynghylch caethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31/07/2018.

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn groes i hawliau dynol sylfaenol. Mae'n cymryd amryw o ffurfiau, fel caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfod a gorfodol a masnachu pobl, y mae amddifadu rhywun arall o'i ryddid er mwyn manteisio arno er budd personol neu fasnachol yn gyffredin i bob un ohonynt.

Rydym wedi ymrwymo i wella ein harferion i frwydro yn erbyn caethwasiaeth a masnachu pobl.

Strwythur trefniadol

Mae Prifysgol De Cymru yn brifysgol amlddisgyblaethol fawr sydd wedi'i lleoli yn Ne Cymru gyda champysau Pontypridd, Caerdydd, Casnewydd a Dubai. Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac Y Coleg, Merthyr Tudful yn is-gwmnïau dan berchnogaeth lwyr y Brifysgol ond yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u Byrddau Cyfarwyddwyr eu hunain.

Arweinir y Brifysgol gan yr Is-Ganghellor, yr Athro Julie Lydon, a gynorthwyir gan dîm Gweithredol bach ac fe'i cynghorir gan ei Bwrdd Academaidd. Corfforaeth Addysg Uwch yw'r Brifysgol ac fe'i llywodraethir gan Fwrdd Llywodraethwyr sydd â mwyafrif o lywodraethwyr annibynnol. Yn academaidd trefnir y Brifysgol yn bedair cyfadran gyda phob un â nifer o ysgolion. Mae gan y Brifysgol tua 30,000 o fyfyrwyr ac mae'n un o'r rhai mwyaf, yn ôl nifer y myfyrwyr yn y DU.

Ein cadwyni cyflenwi

Mae'r Brifysgol yn diwallu ei hanghenion am nwyddau, gwasanaethau a gwaith mewn ffordd sy'n cyflawni gwerth am arian ar sail cynhyrchu buddion nid yn unig i'r sefydliad ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, tra'n lleihau niwed i'r amgylchedd. Mae cadwyni cyflenwi'r Brifysgol yn dod o dan bump 'uwch gategori' yn bennaf, sef:

- Defnyddiau Traul ac Offer Labordy
- Adnoddau Llyfrgell
- Gwasanaethau Proffesiynol
- Offer a Gwasanaethau TGCh
- Nwyddau Ystadau, Gwasanaethau a Gwaith

Y prif gategorïau sy'n dwyn risgiau sylweddol yw cyflenwadau swyddfa, defnyddiau labordy, offer TGCh a rhai gwasanaethau ystadau, megis gwasanaethau glanhau a brynir ar gontract o bryd i'w gilydd.

Mae Prifysgol De Cymru yn aelod o Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru (CPCW). Mae CPCW yn gweithio'n effeithiol gyda Consortiwm Pwrcasu Prifysgolion cyfatebol y DU a grwpiau cenedlaethol, ac mae'n mwynhau cydberthnasau cynyddol a llwyddiannus.

Mae'r rhaglen gontractio ar y cyd yn darparu portffolio cydweithredol cynhwysfawr ac aeddfed, sy'n cynnwys rhai o'r categorïau risg uchel a restrir uchod.

Mae llawer o'n cyflenwyr yn y categorïau risg uwch hyn wedi ymrwymo i God Sylfaenol y Fenter Masnachu Moesegol (ETI) a'r Consortiwm Pwrcasu Prifysgolion y DU. Mae'r Consortia Pwrcasu yn gweithio i berswadio'r cyflenwyr sy'n weddill yn y categorïau hyn i ymuno â nhw. Mae Cod Sylfaenol yr ETI yn seiliedig ar gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) ac mae'n god ymarfer llafur a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n ei gwneud yn ofynnol:

1. Bod cyflogaeth yn cael ei dewis yn rhydd;
2. Bod rhyddid i ymwneud a'r hawl i fargeinio ar y cyd yn cael eu parchu;
3. Bod yr amodau gwaith yn ddiogel ac yn hylan;
4. Ni chaiff Llafur plant ei ddefnyddio;
5. Telir cyflogau byw;
6. Nid yw'r oriau gwaith yn ormodol;
7. Ni arferir gwahaniaethu;
8. Bod cyflogaeth yn cael ei darparu'n rheolaidd; a
9. Ni chaniateir triniaeth lem nac annynol.

Offer TGCh

Mae Prifysgol De Cymru yn cymryd rhan mewn nifer o gytundebau pwrcasu cydweithredol ar gyfer offer TGCh. Drwy'r cytundebau pwrcasu cydweithredol hyn, mae'r Brifysgol yn cefnogi egwyddorion Electronics Watch, sefydliad monitro annibynnol sy'n gweithio i gyflawni parch tuag at hawliau llafur yn y diwydiant electroneg byd-eang trwy gyfrwng pwrcasu cymdeithasol cyhoeddus cyfrifol yn Ewrop. Rydym yn gweithio gyda'n cyflenwyr sydd wedi'u contractio i weithredu'r ymrwymiad i gyfundrefnau monitro newydd lle mae polisïau ac arferion corfforaethol o ran ymddygiad ac archwilio cymdeithasol yn methu o ran eu tryloywder a'u heffeithiolrwydd.

Ein polisïau ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac mewn unrhyw ran o'n busnes.

Yng ngoleuni'r rhwymedigaeth i adrodd ar fesurau i sicrhau bod pob rhan o'n busnes a'n cadwyn gyflenwi yn ddi-gaethwasiaeth, byddwn yn adolygu polisïau a gweithdrefnau ein gweithle i asesu eu heffeithiolrwydd o ran nodi a mynd i'r afael â materion caethwasiaeth fodern. Bydd y Brifysgol hefyd yn ystyried polisi newydd y Llywodraeth ar gadwyni cyflenwi moesegol.

Bydd polisïau a gweithdrefnau ein gweithle yn dangos ein hymrwymiad i weithredu'n foesegol ac yn ddidwyll yn ein holl gydberthnasau busnes ac i weithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn cymryd unrhyw le yn ein cadwyni cyflenwi.

Prosesau diwydrwydd dyladwy ar gyfer caethwasiaeth a masnachu pobl

Fel rhan o'n menter i nodi a lliniaru risg, byddwn yn rhoi systemau ar waith i:

- Nodi ac asesu meysydd risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi.
- Lliniaru'r risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi.
- Monitro meysydd risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi.

- Diogelu chwythwyr chwiban.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn awr o ran datblygu ein polisïau:

- Rydym yn gweithio ar y cyd fel Prifysgolion Cymru ar weithredu 12 ymrwymiad Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol ac yn cydymffurfio â llythyren ac ysbryd y DU, Cyfreithiau'r UE a chyfreithiau rhyngwladol.
- Rydym wedi ailddrafftio Contractau Busnes y Brifysgol i adlewyrchu'r broses o gyflwyno Deddf Caethwasiaeth Fodern y DU 2015 lle bydd yn ofynnol i gyflenwyr gydymffurfio â'r holl gyfreithiau perthnasol mewn perthynas â gwrthsefyll caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.
- Adolygu'r Llawlyfr Pwrcasu er mwyn adlewyrchu ein hymrwymiad i weithredu'n onest ac yn foesegol yn ein holl berthnasoedd busnes ac i weithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol, gan gynnwys, mewn perthynas â brwydro caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi.
- Gweithredu Ystorfa Contractau – Rydym wrthi'n dewis ac yn gweithredu datrysiad meddalwedd ystorfa contractau. Bydd yr ateb yn ein galluogi i nodi mathau/ardaloedd risg a Rheolwr Contract y Brifysgol i gyfeirio lle mae angen hyfforddiant ac arweiniad ar MSA a'r cyfrifoldebau dilynol o reoli a lliniaru'r risgiau.
- Adolygu ac wedyn diweddaru telerau ac amodau pwrcasu safonol y brifysgol, a fydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau caethwasiaeth fodern cymwys.
- Adolygu a diweddaru ein dogfennaeth dendro i adlewyrchu Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a fydd yn cynnwys cwestiynau am bolisïau a gweithdrefnau cynigwyr i nodi a dileu llafur gorfodol yn eu gweithrediadau eu hunain.
  Ystyried ffyrdd priodol, effeithiol a chymesur o godi ymwybyddiaeth staff.

Hyfforddiant

Er mwyn sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi a'n sefydliad, rydym yn bwriadu codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a cham-drin hawliau dynol ymhlith ein staff a darparu hyfforddiant priodol. Bydd staff caffael yn cwblhau hyfforddiant ar-lein y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS), 'Caffael a Chyflenwi Moesegol', neu gyfwerth.

Camau Pellach

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddeall ei chadwyni cyflenwi yn well a gweithio tuag at fwy o dryloywder a chyfrifoldeb tuag at bobl sy'n gweithio ynddynt.

Ar gyfer contractau yr ydym wedi'u dyfarnu ac yn cymryd rhan ynddynt, byddwn yn nodi'r cadwyni cyflenwi hynny sy'n cynrychioli risg canolig i risg uchel o gaethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur gorfodol a bondiedig, a thorri hawliau llafur. Gan weithio gyda'n cyflenwyr, grwpiau prynu cydweithredol a sefydliadau perthnasol eraill, byddwn yn monitro'r cadwyni cyflenwi hynny sydd wedi'u nodi fel risg bosibl yn agosach ac yn cymryd camau priodol os oes angen.

LLOFNODWYD: **Dyddiad:** 26 Tachwedd 2018[GA1]

GARETH WILLIAMS
CADEIRYDD BWRDD Y LLYWODRAETHWYR
PRIFYSGOL DE CYMRU